# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Odrifau ac Eilrifau**<br>(Hyd at 20) |
| Adnoddau: | • Llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Odrifau ac Eilrifau’.<br>• Numicons.<br>• Sach o rifau hyd at 20.<br>• Dau ddis (rhifau hyd at 10).<br>• Blociau bach, e.e. lego/unifix/duplo.<br>• Blociau mawr – ardal allanol.<br>• Taflen llun gêm bêl-droed – gosod rhifau ar aelodau’r timau.<br><br>**<u>Adnoddau digidol:</u>**<br>• Cyflwyniad digidol – *gweler y ddogfen ‘Odrifau ac Eilrifau hyd at 10 – atodiad’.*<br>• Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **<u>Cam 1: Adolygu</u>**<br>• Adolygu beth yw odrif ac eilrif – atgoffa/galw i gof y ffaith bod un darn ‘unig’ gyda’r odrifau, ond bod partner gyda’r eilrifau.<br>• Darllen y llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Odrifau ac Eilrifau’.<br>• Defnyddio’r cyflwyniad digidol *‘Odrifau ac Eilrifau hyd at 10 – atodiad’.*<br><br>**<u>Cam 2: Cyflwyno odrifau ac eilrifau hyd at 20</u>**<br>• Astudio llinell rif ddigidol o rifau hyd at 20.<br>• Trafod y patrwm odrif/eilrif.<br>• Tynnu sylw at y ffaith fod pob odrif yn gorffen gyda 1,3,5,7 neu 9 a phob eilrif yn gorffen gyda 0,2,4,6 neu 8<br>• Athro yn galw rhif – y dysgwyr i eistedd/neidio gan ddibynnu a yw’r rhif yn odrif neu’n eilrif.<br><br>**<u>Cam 3: Twba tuff (gwaith pâr)</u>**<br>Paratoi y twba tuff ar ffurf cae pêl-droed, e.e. 2 gôl, llinellau ochr a chanol, llawr gwyrdd.<br>Rhoi 11 carden fflach o amlinelliad o 10 chwaraewr pêl-droed yr un i’r plant (11 o un lliw, a’r 11 arall o liw gwahanol). Gofyn iddynt osod rhifau ar bob chwaraewr – un plentyn yn gosod rhifau ar y tîm odrifau, a’r llall yn rhoi rhifau i’r eilrifau. Yna gosod y chwaraewyr ar y cae pêl-droed. Mae un cerdyn yn ormod – fedrwch chi ddyfalu pa rif fyddai’n dod nesaf? |






| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 4: Gwaith grŵp</u>**<br>Pawb yn sefyll mewn cylch. Un dysgwr yn tynnu numicon allan o sach a'i roi gyda numicon 10. Gofyn 'Beth yw'r rhif?' Os yw'r rhif yn odrif, rhaid ymestyn i'r awyr yn dal, os mae'n eilrif rhaid eistedd ar y llawr. Yr un cyntaf i wneud y siâp cywir sy'n tynnu'r numicon nesaf.<br><br>**<u>Cam 5: Didoli</u>**<br>Didoli cardiau fflach o rifau o 0 i 20 i ddau hŵp – odrifau ac eilrifau.<br><br>**<u>Cam 6: Mynd am dro</u>**<br>Mynd ar daith o gwmpas yr ysgol yn chwilio am rifau. Trafod a yw'r rhifau hynny yn odrif neu'n eilrif.<br><br>**<u>Cam 7: Ardal allanol - helfa rhifau</u>**<br>Cuddio llawer o rifau o 0 i 20 yn yr ardal allanol. Y dysgwyr i chwilio amdanynt, a'u didoli i setiau odrif ac eilrif ar ôl eu casglu. |
| Cwestiynu: | • Ydy'r rhif/numicon hwn yn odrif neu'n eilrif?<br>• Fedrwch chi chwilio am odrif/eilrif? |
| Beth nesaf? | Astudio odrifau ac eilrifau sy'n fwy na 20. |

